

## **Polisi Eiddo Deallusol Prifysgol Aberystwyth**

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i sicrhau y bydd yr Eiddo Deallusol sy'n deillio o'i gwaith addysgu ac ymchwilio yn cael ei ddefnyddio er budd cymdeithas ac economi Cymru a'r tu hwnt. Mae'r ddogfen hon ("Polisi") yn nodi safbwynt y Brifysgol o ran creu eiddo deallusol, ei berchnogi ac ymelwa arno.

### **1. Egwyddorion y Polisi**

Mae ymelwa ar Eiddo Deallusol yn gwella dosbarthiad canlyniadau ymchwil, yn cyfrannu at agenda'r Brifysgol ynglŷn ag effaith gymdeithasol ac economaidd ac mae'n gallu creu incwm i'r Brifysgol, ei Staff a'i Myfyrwyr. Nid yw hi ond yn deg bod y Staff a'r Myfyrwyr sydd wedi cyfrannu at greu Eiddo Deallusol ac ymelwa arno yn cael eu trin yn deg o ran rhannu'r incwm buddiol a ddaw o ymelwa ar Eiddo Deallusol.

Dyma brif egwyddorion y Polisi hwn:

- Mae'r Brifysgol yn dymuno creu amgylchedd sy'n annog ac yn hybu gwaith i greu a lledaenu dyfeisiadau, ymchwil a damcaniaethau newydd
- Ychwanegu at y gydnabyddiaeth gyhoeddus i waith academyddion ac ymchwilwyr (boed yn Staff a/neu'n Fyfyrwyr)
- Amddiffyn Eiddo Deallusol gwerthfawr a chreu mantais gystadleuol wrth ymelwa ar ganlyniadau
- Galluogi Eiddo Deallusol sy'n cael ei greu yn y Brifysgol i gael ei ddynodi fel mesur o effaith bosibl gweithgareddau'r Brifysgol y gellir cyflwyno adroddiadau arni
- Hyrwyddo'r broses o ymelwa'n llwyddiannus ar Eiddo Deallusol
- Hwyluso datblygiad Eiddo Deallusol drwy ddarparu cydnabyddiaeth ariannol deg a chyfiawn i Staff, Myfyrwyr, Adrannau a'r Brifysgol.

Mae'r Polisi hwn yn nodi safbwynt y Brifysgol ar gyfer creu Eiddo Deallusol, ei berchnogi, ei amddiffyn ac ymelwa arno yn y Brifysgol. O dan gyfraith Cymru a Lloegr, y Brifysgol, yn rhinwedd ei swydd fel cyflogwr, fydd perchennog Eiddo Deallusol a gynhrychir gan y Staff, ei chyflogeion, yn ystod eu cyflogaeth arferol (ac eithrio pan fo'r hawliau hyn wedi'u hepgor).

Nod y Polisi hwn yw cydbwysu buddiannau'r Brifysgol â buddiannau'r Crëwr/Crewyr (fel y'u diffinnir yn adran 2) ar delerau teg a rhesymol, a rhannu'r buddion sy'n codi o berchnogaeth ar yr Eiddo Deallusol a chymhwysu'r Eiddo Deallusol.

### **2. Diffiniadau**

Yn y Polisi hwn, bydd i'r ymadroddion a ganlyn yr ystyron a ganlyn:-

- 2.1 YBA yr adran o'r Brifysgol sy'n gyfrifol am fasnacheiddio Eiddo Deallusol, sef ar hyn o bryd yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi (YBA).

2.2	Gwrthdaro Buddiannau	fel y'i diffinnir ym mholisi'r Brifysgol ynghylch Gwrthdaro Buddiannau yn y ddogfen ar reoliadau ariannol.
2.3	Crëwr/Crewyr	unrhyw unigolyn neu unigolion sy'n creu, yn llunio neu'n dyfeisio eitem o Eiddo Deallusol.
2.4	Adran	unrhyw uned sydd â'r prif gyfrifoldeb dros ddarparu rhaglenni sy'n arwain at ddyfarnu graddau israddedig ac ôl-raddedig a chymwysterau academiaidd eraill y Brifysgol a/neu gynnal a hyrwyddo gwaith ymchwil, cymryd rhan mewn cyfnewid gwybodaeth neu unedau hunan-ariannol a/neu swyddogaethau eraill o'r fath gan gynnwys ymysg eraill gwasanaethau cyffredinol i'r Brifysgol.
2.5	Eiddo Deallusol	Mae'n cynnwys hawlfraint, patentau, hawliau dylunio, nodau masnach, enwau masnach, marciau gwasanaeth, hawliau cronfeydd data, hawliau bridwyr planhigion, hawliau perfformio, modelau defnyddioldeb, gwybodaeth ymarferol arbennig, gwybodaeth gyfrinachol a hawliau eiddo deallusol eraill, boed ym mhob achos wedi'u cofrestru neu heb eu cofrestru ac yn cynnwys ceisiadau am ddyfarnu unrhyw hawliau blaenorol a phob hawl neu fath o amddiffyniad mewn unrhyw awdurdodaeth.
2.6	Deunyddiau Ysgolheigaidd	gwrslyfrau, dramâu, geiriau caneuon, sgorau cerddorol, cyflwyniadau llafar, perfformiadau, llyfrau ffeithiol, nofelau a cherddi poblogaidd a gweithiau celfyddyd gain, erthyglau a luniwyd i'w cyhoeddi mewn cyfnodolion, erthyglau golygyddol, papurau cynhadledd a chyflwyniadau perthynol, nodiadau a luniwyd at ddibenion personol, traethodau ymchwil a thraethodau estynedig a deunyddiau tebyg eraill a ddatblygir o dro i dro yn ystod cyflogaeth.
2.7	Staff	pob unigolyn a gyflogir yn rhan-amser neu'n amser llawn gan y Brifysgol boed mewn swydd academiaidd, ymchwil, dechnegol, academiaidd-berthynol neu unrhyw swydd arall boed am gyfnod penodol neu yn barhaol.
2.8	Myfyrwyr	myfyrwyr cofrestredig y Brifysgol boed y rheiny'n uwchraddedigion, israddedigion neu ar gynllun cyfnewid, heb fod yn graddio neu fel arall a chan gynnwys myfyrwyr uwchraddedig yn ystod cyfnod ysgrifennu canlyniadau eu gwaith ymchwil.
2.9	Goruchwylydd	aelod o'r staff academiaidd sy'n gyfrifol am oruchwylio, cynorthwyo, arwain, monitro neu gefnogi mewn unrhyw ffordd arall ddarn penodol o waith academiaidd neu ymchwil, gan gynnwys asesiadau, gan Fyfyriwr.
2.10	Deunyddiau Dysgu	unrhyw ddeunyddiau a luniwyd o fewn y Brifysgol neu ar ei rhan, y bwriedir iddynt gael eu defnyddio'n bennaf gan y Staff neu eraill neu eu gweld gan fyfyrwyr ar unrhyw lefel, ar gyfer unrhyw gwrs astudio i'r Myfyrwyr hynny. Byddai enghreifftiau yn cynnwys: taflenni dosbarth, nodiadau darlithoedd, rhestrau darllen a gwybodaeth

arall a ddarperir i Fyfywrwr ac unrhyw ddeunyddiau sain, gweledol ac amlgyfrwng.

- |      |                      |   |
|------|----------------------|---|
| 2.11 | Prifysgol            | Prifysgol Aberystwyth   |
| 2.12 | Adnoddau'r Brifysgol | cyfleusterau neu adnoddau'r Brifysgol gan gynnwys (ymysg eraill):- <ul style="list-style-type: none"><li>(i) lle ac offer mewn swyddfa, labordy a stiwdio;</li><li>(ii) caledwedd, meddalwedd a chymorth cyfrifiadurol;</li><li>(iii) gwasanaethau ysgrifenyddol;</li><li>(iv) cynorthwywyr ymchwil, dysgu a labordai;</li><li>(v) cyflenwadau a chyfleustodau;</li><li>(vi) cyllid ar gyfer gweithgareddau ymchwilio ac addysgu, ac ad-daliadau ariannol eraill o ran teithio, cyfarpar neu amser;</li><li>(vii) gwasanaethau cymorth canolog megis y Swyddfa Gyllid, cymorth cyfreithiol neu gymorth trosglwyddo technoleg.</li></ul> |

### **3. Creu a Pherchnogi Eiddo Deallusol**

#### **(A) Staff**

- 3.1 Bydd y Staff yn cefnogi'r Brifysgol wrth weithredu'r Polisi hwn ac yn darparu cymorth ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag adnabod, asesu ac amddiffyn Eiddo Deallusol ac ymelwa arno gan gynnwys osgoi datgelu unrhyw Eiddo Deallusol posibl i unrhyw drydydd partïon tan ar ôl iddo gael ei drafod gyda'r YBA.
- 3.2 Yn ddarostyngedig i gymal 3.3., a chan gymryd cymal 3.15 i ystyriaeth, y Brifysgol fydd perchennog ar yr holl Eiddo Deallusol sy'n cael ei greu gan y Staff:
- yn ystod eu cyflogaeth a/neu wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau ar ran y Brifysgol; neu
  - drwy ddefnyddio Adnoddau'r Brifysgol; neu
  - wrth gyflawni dyletswyddau eraill sydd wedi'u dyrannu iddynt yn benodol gan y Brifysgol.
- 3.3 Yn ddarostyngedig i gymalau 3.15 a 3.18, bydd yr hawlfraint yn yr Eiddo Deallusol mewn Deunyddiau Ysgolheigaidd a Deunyddiau Dysgu yn cael ei haseinio'n awtomatig i aelodau o'r Staff. Mae'r Staff yn rhoi trwydded awtomatig, ddi-dâl, ddiamod a pharhaus, ddi-droi'n ôl ac anghyfyngedig i'r Brifysgol i ddefnyddio a chopio'r deunyddiau hyn:
- at ddibenion academaidd, dibenion ymchwil a dibenion gweinyddol;
  - at ddibenion masnachol (o ran Deunyddiau Dysgu yn unig); a/neu
  - at unrhyw ddiben arall sy'n ymwneud â gweithgareddau elusennol y Brifysgol.

Caiff y Brifysgol, yn ôl ei disgresiwn absoliwt ei hun ac ar gais ysgrifenedig gan aelod o'r Staff, hepgor ei hawliau perchnogaeth mewn Deunyddiau Ysgolheigaidd.

3.4 Mae'r Brifysgol yn annog cyhoeddi Deunyddiau Ysgolheigaidd ond dylai'r Staff ystyried y potensial ar gyfer cymhwyso unrhyw syniadau a ddatgelir ynddynt yn fasnachol ac ymgynghori â'r YBA pan welir bod potensial ar gyfer ymelwa. Wrth gyflwyno Deunyddiau Ysgolheigaidd i'w cyhoeddi, bydd y Staff yn hysbysu'r cyhoeddwr o'r drwydded awtomatig sydd rhyngddynt hwythau a'r Brifysgol. Dylai'r Staff sicrhau hefyd wrth gyflwyno Deunyddiau Ysgolheigaidd i'w cyhoeddi nad yw cyhoeddi:

- yn tramgwyddo hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd parti;
- yn tramgwyddo unrhyw ddyletswydd neu ymrwymiad o ran cyfrinachedd;
- yn datgelu Eiddo Deallusol y Brifysgol cyn pryd (gall yr hawliau hyn gael eu colli trwy ei ddatgelu'n rhy gynnar); nac
- yn cyfaddawdu hawliau'r Brifysgol yn ei Heiddo Deallusol.

3.5 Mae'r Brifysgol yn dymuno annog defnyddio archifau, archifau a chadwrfeydd digidol, ac yn arbennig ei chadwrfeydd ei hun. Yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau a roddir i unrhyw drydydd parti, bydd Crewyr yn rhoi'r holl hawliau angenrheidiol i'r Brifysgol i osod Deunyddiau Dysgu yn ei harchifau a'i chadwrfeydd digidol. Mae Crewyr hefyd yn cael cyflwyno'r deunyddiau hyn i archifau neu gadwrfeydd allanol, ar yr amod nad yw eu cyflwyno:

- yn tramgwyddo hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd parti;
- yn tramgwyddo unrhyw ddyletswydd neu ymrwymiad o ran cyfrinachedd;
- yn datgelu Eiddo Deallusol y Brifysgol cyn pryd (gall yr hawliau hyn gael eu colli trwy ei ddatgelu'n rhy gynnar); nac
- yn cyfaddawdu hawliau'r Brifysgol yn ei Heiddo Deallusol.

## **(B) Myfyrwyr**

3.6 Y Myfyrwyr fydd perchennog yr Eiddo Deallusol y maent yn ei greu yn ystod eu hastudiaethau a/neu eu hymchwil, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau cymal 3.7, neu fel y nodir fel arall yn y Polisi hwn.

3.7 Ceir rhai amgylchiadau lle caiff Brifysgol ei gwneud yn ofynnol i Fyfyriwr aseinio ei Eiddo Deallusol yn ffurfiol i'r Brifysgol (neu drydydd parti yn ôl y digwydd) cyn, yn ystod neu ar ôl eu cwrs astudio a/neu eu hymchwil. Gall y rhain gynnwys:-

- Pan fo'r Myfyriwr yn gweithio ar brosiect a ariennir gan drydydd parti. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd y Myfyriwr yn cadarnhau ei fod yn cytuno y gall fod yn ofynnol i'r Brifysgol berchnogi'r Eiddo Deallusol hwnnw er mwyn cydymffurfio â thelerau cytundeb gyda'r noddwr o drydydd parti;
- Pan nad oes modd gwahanu'r Eiddo Deallusol o'r hyn a ddatblygwyd gan y Staff. Er enghraifft, pan fo Goruchwilydd wedi cyfrannu'n arwyddocaol at greu Eiddo Deallusol newydd yn yr ymchwil sy'n arwain at gyhoeddi traethawd ymchwil, yr ymagwedd deg a chyfiawn fyddai pennu cydberchnogaeth, a hynny bob amser ar yr amod bod y Myfyriwr yn cael cyfran deg o unrhyw incwm a geir o'r Eiddo Deallusol hwnnw.
- Pan fo'r Brifysgol yn helpu'r Myfyriwr i ymelwa ar ei Eiddo Deallusol.

- Pan fo Myfyriwr yn creu Eiddo Deallusol drwy ddefnyddio Adnoddau'r Brifysgol nad ydynt ar gael fel arfer yn ystod sesiynau dysgu ac addysgu arferol ei gwrs astudio.

- 3.8 Bydd gan Fyfyriwr sy'n aseinio ei Eiddo Deallusol i'r Brifysgol o dan gymal 3.7 yr un hawliau â'r Staff a amlinellir yng nghymal 3.3.
- 3.9 Pan ofynnir am hynny, bydd Myfyrwyr yn gwneud cytundeb aseinio ysgrifenedig, er enghraifft pan fo hawliau trydydd partïon neu rwymedigaethau cyllido yn golygu bod angen hynny. Pan fo Myfyriwr yn gwrthod aseinio'i hawliau yn yr Eiddo Deallusol, ni chaniateir ei atal rhag cofrestru fel Myfyriwr oni bai bod aseinio'r hawliau hyn i'r Brifysgol yn rhag-amod ar gyfer cael cyllid i dalu ei ffioedd dysgu. Er hynny, gall gwrthod aseinio olygu bod y Myfyriwr yn cael ei symud i weithio ar brosiect neu weithgaredd arall ar unwaith.
- 3.10 I osgoi amheuaeth, bydd Myfyrwyr sydd hefyd yn gyflogeion, neu Staff sydd wedi'u cofrestru ar gyfer gradd neu sy'n dilyn cwrs astudio, yn cael eu trin fel Staff at ddibenion y Polisi hwn ond dim ond pan fo'r gyflogaeth honno'n ymwneud â gweithgareddau academiaidd y Brifysgol.
- 3.11 Bydd Myfyrwyr yn rhoi trwydded ddi-dâl, ddiamod a pharhaus, ddi-droi'n ôl ac anghyfyngedig i'r Brifysgol i ddefnyddio'r Eiddo Deallusol y maent yn ei greu yn ystod cwrs astudio a/neu ymchwil at ddibenion ymchwil, dibenion gweinyddol anfasnachol, dibenion hyrwyddo, dibenion addysgol, dibenion rheoli ansawdd, arholi a dysgu gan gynnwys ymysg pethau eraill ddigideiddio gwaith y Myfyriwr. Yn ddarostyngedig i gymal 3.15, y Myfyriwr fydd perchennog yr hawlfraint mewn traethawd ymchwil y mae'n ei ysgrifennu.
- 3.12 Bydd Myfyrwyr yn cydnabod y gall fod gofyn iddynt gadw'r Eiddo Deallusol y maent yn ei greu yn gyfrinachol pan allai ei gyhoeddi beryglu hawliau'r Brifysgol i'r Eiddo Deallusol hwnnw, neu pan fo'r Brifysgol a/neu'r Myfyriwr o dan ymrwymiad cyfrinachedd tuag at drydydd parti.
- 3.13 Anogir Myfyriwr sy'n dal yn ansicr o'i hawliau a'i ymrwymadau o ran amddiffyn Eiddo Deallusol i ymgynghori â'r YBA yn y lle cyntaf a cheisio cyngor annibynnol os bydd ei angen. Dylid hefyd ystyried Undeb y Myfyrwyr yn ffynhonnell cymorth ar gyfer hyn.

**(C) Pobl nad ydynt wedi'u cyflogi gan y Brifysgol**

- 3.14 Mae Athrofeydd a ymgorfforwyd yn y Brifysgol yn gyfrifol am hysbysu'r adran Adnoddau Dynol am unrhyw ymwelydd â'r Athrofa, gan gynnwys ymwelwyr â theitlau anrhydeddus (er enghraifft, Athrawon Emeritws a/neu Anrhydeddus). Bydd Penaethiaid Athrofeydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cytundeb ysgrifenedig yn cael ei lofnodi sy'n cadarnhau perchnogaeth yr holl Eiddo Deallusol a ddyfeisir neu a ddarganfyddir gan yr ymwelydd a/neu unrhyw ymgynghorydd/ymgynghorwyr a gymerir ymlaen gan yr Athrofa cyn i'r parti hwnnw wneud unrhyw waith i'r Brifysgol (am dâl neu'n ddi-dâl). Os oes gan yr ymwelydd academiaidd gontract cyflogaeth yn barod â sefydliad allanol, ac os yw'n briodol, bydd cytundeb rhyngsefydliadol rhwng y Brifysgol a'r sefydliad allanol yn cael ei drefnu gan yr YBA cyn i unrhyw waith ddechrau. Y cytundeb rhyngsefydliadol fydd yn pennu pa sefydliad sy'n perchnogi ac yn masnacheiddio unrhyw Eiddo Deallusol a fydd yn codi.

**(D) Cytundebau â Thrydydd Partïon**

- 3.15 Gall Eiddo Deallusol godi o waith ymchwil sy'n cael ei gefnogi neu ei gomisiynu gan drydydd parti (Cyngor Ymchwil, Llywodraeth, Diwydiant, Elusen) o dan grant neu

gontract, ac os felly bydd telerau'r cytundeb contractiol rhwng y Brifysgol a'r trydydd parti yn pennu pwy sy'n ei berchenogi, yn cael ei ddefnyddio, yn ymelwa arno'n fasnachol, a hawliau'r Brifysgol, os oes hawliau ganddi, i unrhyw refeniw a ddaw o ymelwa yn fasnachol arno. Gall y telerau hyn ei gwneud yn ofynnol i Staff a Myfyrwyr aseinio'u hawliau yn yr Eiddo Deallusol hwnnw i'r Brifysgol a/neu'r trydydd parti a bydd y Staff a'r Myfyrwyr perthnasol yn aseinio'r Eiddo Deallusol hwnnw yn unol â hynny. Pan fo'n berthnasol, rhaid i'r holl Staff a Myfyrwyr sy'n rhan o brosiect ymchwil sydd wedi'i gefnogi neu wedi'i gomisiynu gan drydydd parti gael eu hysbysu o'r materion contractiol gan y prif ymchwilydd cyn i'r ymchwil ddechrau.

3.16 Gan ddibynnu ar gyfraniadau ariannol a deallusol cymharol y Brifysgol a'r sefydliad trydydd parti at ddarn o waith, gall fod yn briodol i'r naill neu'r llall berchnogi unrhyw Eiddo Deallusol fydd yn codi.

3.17 Bydd pob Athrofa yn darparu copi o unrhyw gontract sy'n cynnwys telerau Eiddo Deallusol i'r YBA i gael ei gymeradwyo cyn iddo gael ei lofnodi.

#### (E) **Polisi Mynediad Agored UKRI**

3.18 Cyhoeddodd UKRI Bolisi Mynediad Agored newydd sy'n gymwys i erthyglau ymchwil a adolygir gan gymheiriaid ac a ariennir gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU neu un o'u cynghorau gan gynnwys Research England ac Innovate UK. Mae'r Polisi Mynediad Agored hwn yn gymwys i'r canlynol:

- erthyglau ymchwil a adolygir gan gymheiriaid a gyflwynwyd i'w cyhoeddi **ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022**; a
- monograffau, penodau mewn llyfrau, a chasgliadau wedi'u golygu a gyhoeddir o **1 Ionawr 2024 ymlaen**.

3.19 Mae erthyglau ymchwil a adolygir gan gymheiriaid yn cynnwys adolygiadau a phapurau cynhadledd a dderbynnir i'w cyhoeddi'n derfynol naill ai mewn cyfnodolyn, trafodion cynhadledd gyda rhif cyfresol safonol rhyngwladol (ISSN), neu lwyfan cyhoeddi. Nid yw rhagbrintiau yn dod o fewn gofynion y Polisi Mynediad Agored.

3.19 Er mwyn i'r Staff a'r Myfyrwyr gydymffurfio â'r Polisi Mynediad Agored, gallant gyhoeddi erthyglau ymchwil a adolygir gan gymheiriaid trwy ddau lwybr:

- **Llwybr 1:** cyhoeddi'n uniongyrchol mewn cyfnodolyn neu lwyfan cyhoeddi sy'n gwneud yr erthygl yn agored ar unwaith drwy ei gwefan gyda thrwydded briodoli Creative Commons ("trwydded CC BY") neu drwydded arall a ganiateir (h.y. Trwydded Llywodraeth Agored).

Ar gyfer cyhoeddiadau o dan Llwybr 1, mae UKRI yn darparu Grant Bloc Mynediad Agored i helpu i gyhoeddi erthyglau a chydymffurfio â'r Polisi Mynediad Agored. Dylai'r Staff a'r Myfyrwyr siarad â'ch adran am ba gymorth a allai gael ei gynnig.

- **Llwybr 2:** cyhoeddi'r erthygl mewn cyfnodolyn tanysgrifio ac adneuo'r llawysgrif a dderbyniwyd gan y cyhoeddwr mewn cadwrfa bwnc adeg y cyhoeddi terfynol. Rhaid i'r Staff a'r Myfyrwyr sy'n cyhoeddi trwy ddilyn Llwybr 2 sicrhau bod y fersiwn a adneuir yn y gadwrfa yn agored, bod ganddo drwydded CC BY ac nad yw'n dod o dan gyfnod embargo gan y cyhoeddwr. Rhaid i'r Staff a'r Myfyrwyr hysbysu'r cyhoeddwr hefyd eu bod yn bwriadu cyflwyno'r llawysgrif a dderbyniwyd i'r

gadwrfa drwy gynnwys y gosodiad a ganlyn yn adran gydnabod eu llawysgrif ac mewn unrhyw lythyr neu nodyn eglurhaol:

*“At ddibenion mynediad agored, mae'r awdur wedi defnyddio trwydded priodoli Creative Commons (CC BY) (DS lle caniateir hynny gan UKRI, gellir dweud yn hytrach 'trwydded llywodraeth agored' neu 'trwydded priodoli dim deilliadau Commons Creative (CC BY-ND) ar gyfer unrhyw fersiwn llawysgrif a dderbynnir gan yr awdur a fydd yn codi.”*

Mae'n bwysig bod y gosodiad hwn yn cael ei gynnwys er mwyn cadw'r hawliau yn y llawysgrif a dderbyniwyd.

Os na fydd y cyhoeddwr yn derbyn telerau'r drwydded am unrhyw reswm, dylai'r aelod Staff neu'r Myfyriwr gysylltu â'ch adran.

- 3.20 Rhaid i bob erthygl a gyhoeddir gynnwys gosodiad ynghylch gweld data sy'n hysbysu unrhyw un sy'n darllen yr erthygl ble mae'r deunyddiau ymchwil sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r erthygl ar gael, a sut y gellir cyrchu'r deunyddiau ymchwil hynny.

#### **4. Gweithdrefnau ar gyfer y Staff a'r Myfyrwyr a'u Hymrwymiadau**

- 4.1 Dylai'r Staff bob amser fod yn effro i werth arfaethedig eu gwaith ymchwil. Rhaid i'r Staff hysbysu'r YBA ar unwaith am unrhyw Eiddo Deallusol y maen nhw'n credu y bydd ganddo werth masnachol yn codi o'u gwaith yn y Brifysgol (neu o waith eu Myfyrwyr yn y Brifysgol):

- yn ystod eu cyflogaeth a/neu wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran y Brifysgol; a/neu
- wrth ddefnyddio Adnoddau'r Brifysgol; a/neu
- wrth gyflawni dyletswyddau sydd y tu allan i'w dyletswyddau arferol ond sydd wedi'u dyrannu'n benodol i'r aelod o'r Staff,

a hynny cyn eu datgelu'n gyhoeddus.

- 4.2 Dylai unrhyw ddyfais a gwybodaeth gysylltiedig gael eu cadw'n gyfrinachol tan ar ôl i'r YBA eu gwerthuso'n llawn o safbwynt posibiladau ymelwa ac amddiffyn, os yw'n briodol. Mae'r Brifysgol yn annog cyhoeddi ond rhaid i'r Staff sy'n dymuno cyhoeddi neu ddatgelu gysylltu â'r YBA yn y lle cyntaf i drafod y math mwyaf priodol o amddiffyn.
- 4.3 Dylai dyfeisiau gael eu datgelu drwy ddefnyddio'r weithdrefn ddatgelu y mae'r YBA yn gofyn amdani, fel y'i diwygir o dro i dro. Bydd yr YBA yn cynnal adolygiad i bennu perchnogaeth yr Eiddo Deallusol ac yn cynnig barn ragarweiniol o ran y potensial masnachol.
- 4.4 Rhaid i'r Crëwr/Crewyr roi pob cymorth rhesymol i'r Brifysgol wrth ffurfioli'r berchenogaeth ac wrth gofrestru'r Eiddo Deallusol.
- 4.5 Bydd y Crëwr/Crewyr yn gweithio gyda'r YBA i hwyluso amddiffyn yr Eiddo Deallusol ac ymelwa'n fasnachol arno pan fo angen hynny, er enghraifft, gweithio gyda chyfreithwyr, asiantau patentau ac wrth adnabod trwyddedeion posibl. Bydd y

Crëwr/Crewyr yn rhoi awdurdod i'r Brifysgol weithredu unrhyw ddogfen y mae'r Brifysgol o'r farn ei bod yn angenrheidiol i helpu i ymelwa ar yr Eiddo Deallusol.

- 4.6 Bydd angen i'r Crëwr/Crewyr lofnodi cytundeb i gadarnhau'r aseiniad ac i rannu'r incwm. Os oes mwy nag un Crëwr i'r Eiddo Deallusol, yna yr unigolion fydd yn penderfynu sut i ddosrannu eu cyfran nhw o'r incwm. Os nad oes modd cytuno, yna bydd y broses datrys anghydfodau a nodir yng nghymal 6 o'r Polisi hwn yn gymwys.
- 4.7 Rhaid i'r Crëwr/Crewyr hysbysu'r YBA o unrhyw Wrthdaro Buddiannau, gwirioneddol neu bosibl, ynglŷn ag unrhyw Eiddo Deallusol naill ai o ran eu hamgylchiadau eu hunain neu mewn cysylltiad ag unrhyw drydydd parti, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r polisi Gwrthdaro Buddiannau.
- 4.8 Bydd holl Eiddo Deallusol y Brifysgol yn cael ei adolygu'n flynyddol gan yr YBA ac os na fernir ei fod bellach yn bosibl ymelwa arno'n fasnachol, gall yr YBA argymhell i'r Brifysgol, y Crëwr/Crewyr a'r Pennaeth Adran y gellid caniatáu, lle bo hynny'n briodol, i unrhyw amddiffyniad ddod i ben ac i ddirwyn unrhyw waith arall ar weithgareddau ymelwa i ben. Os bydd y Brifysgol yn derbyn argymhelliad o'r fath ond bod y Crëwr/Crewyr er hynny yn dymuno ceisio ymelwa ar yr Eiddo Deallusol (a'r amddiffyniad os oes ei angen), ar eu cyfrifoldeb a'u cost eu hunain, caiff y Brifysgol, yn ôl ei disgresiwn ei hun, aseinio'r Eiddo Deallusol i'r Crëwr/Crewyr ar delerau sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr ac sy'n adlewyrchu'r ymdrech flaenorol, a'r buddsoddiad a'r anghenion i'r dyfodol. Os trosglwyddir hawliau fel hyn yn ôl i'r Crëwr/Crewyr, bydd y Crëwr/Crewyr drwy hynny yn rhoi trwydded barhaus, ddi-droi'n ôl, heb freindaliadau, i'r Brifysgol i ddefnyddio'r Eiddo Deallusol sydd wedi ei ddychwelyd felly ar gyfer ei gwaith ymchwilio a dysgu ei hun.

## 5. Dosrannu Incwm (Rhannu Refeniw)

- 5.1 O dan y Polisi hwn, mae'r Brifysgol yn dymuno gwobrwyo a chymell adnabod syniadau ar gyfer ymelwa'n fasnachol a mathau eraill o ymelwa. Pan fo'r gweithgareddau hyn yn creu incwm, mae'r Brifysgol yn ceisio rhannu'r incwm a geir o'r ymelwa gyda'r Crëwr/Crewyr ac unrhyw gyfranwyr yn unol â'r cymal 5 hwn.
- 5.2 Mae taliadau a geir am fasnacheiddio Eiddo Deallusol yn llwyddiannus trwy drwyddedu neu aseinio yn cael eu trin fel refeniw gros. Gall fod nifer o ffurfiau ar y taliadau hyn, gan gynnwys cyfandaliadau untro, taliadau ymlaen llaw, ffioedd opsiynau, taliadau cerrig milltir, breindaliadau neu fel arall. Efallai y bydd y Brifysgol yn achlysurol yn derbyn cyfrannau yn hytrach nag arian. Bryd hynny, y Brifysgol fydd yn dal y cyfrannau gan ddosrannu unrhyw dderbyniadau incwm/cyfalaf yn ôl y canrannau a ddiffinnir yn y tabl yng nghymal 5.2 isod.
- 5.3 Yn ddarostyngedig i gymal 5.4, bydd rhwymedigaethau'r Brifysgol, a all gynnwys taliadau i drydydd partiön a threuliau rheoli'r Eiddo Deallusol megis ffioedd patentau, cyngor cyfreithiol a masnachol, yn cael eu talu'n gyntaf o'r refeniw gros sy'n dod i law.
- 5.4 Bydd gweddill y refeniw net yn cael ei rannu rhwng y Brifysgol, y Crëwr/Crewyr, ac Athrofa'r Crëwr/Athrofeydd y Crewyr fel a ganlyn:

Derbyniadau Net Cronnol	Crëwr/Crewyr*	Athrofa	Prifysgol	YBA
Hyd at 5k	100%	0%	0%	0%
5k – 50k	60%	15%	15%	10%



50k – 100k	40%	25%	25%	10%
Dros 100k	30%	30%	30%	10%

**\* Does dim angen i unigolion fod yn Grewyr i elwa o'r refeniw o Eiddo Deallusol, yn unol â'r manylion yng nghymal 5.6**

- 5.5 Yn ddarostyngedig i gymal 5.4, bydd Crëwr/Crewyr a/neu gyfranwyr sy'n derbyn cyfran o'r refeniw o'r Eiddo Deallusol yr ymelwir arno yn unol â'r tabl uchod yn dal i gael eu taliadau hyd yn oed os byddant yn ymadael â'r Brifysgol tan i'r refeniw ddod i ben. Os bydd y Crëwr/Crewyr a/neu'r cyfranwyr yn marw, ystâd yr ymadawedig fydd yn cael eu taliadau nhw. Yr YBA fydd yn gyfrifol am wneud trefniadau i ddosrannu unrhyw refeniw net.
- 5.6 Ni ddosrennir incwm tan y bydd y Staff a/neu'r Myfyrwyr sy'n Grëwr/Crewyr wedi dod i gytundeb yn unol â chymal 4.6 a bod y cytundebau wedi'u gwneud rhwng yr unigolyn/unigolion a'r Brifysgol. Pan fo pawb yn gytûn, mae'r Crëwr/Crewyr yn cael cytuno i gynnwys yn y dosraniad incwm Staff neu Fyfrwyr ychwanegol sydd wedi cyfrannu at yr Eiddo Deallusol ond na fernir eu bod yn Grewyr o dan y Polisi hwn.
- 5.7 Rhaid i bob unigolyn y gall fod ganddo hawl i gael taliadau yn ôl trefniadau rhannu refeniw'r Brifysgol sicrhau bod y Brifysgol yn cael gwybod yn ysgrifenedig bob amser o'r cyfeiriad cyfredol lle dylid anfon unrhyw daliadau refeniw sy'n ddyledus iddo. Os na roddir manylion cyfeiriad cyfredol o'r fath i'r Brifysgol, dynodir yr unigolyn yn 'unigolyn sydd ar goll' a buddsoddir yr holl daliadau refeniw sydd heb eu hawlio mewn cyfrif cadw tan y gwneir cais am y taliadau refeniw hynny a'r Brifysgol fydd yn cadw'r holl logau. Ni fydd y Brifysgol yn ymddiriedolwr ar gyfer taliadau refeniw o'r fath sydd heb eu hawlio.
- 5.8 Bydd unrhyw daliadau refeniw sy'n dal heb eu hawlio am 5 mlynedd o'r dyddiad y daw'r refeniw i law'r Brifysgol yn cael eu fforffedu, ar ôl y dyddiad hwnnw, ac yn dychwelyd i'r Brifysgol a chânt eu dosrannu ynghyd ag unrhyw logau net rhwng unrhyw rai eraill sydd â'r hawl i rannu'r llif refeniw hwnnw, ac eithrio unigolyn/unigolion sydd ar goll.
- 5.9 Caiff y Brifysgol adolygu a diwygio telerau'r Polisi hwn o dro i dro.
- 5.10 At hyn, neu hyd yn oed fel dewis arall yn lle'r weithdrefn rhannu refeniw arferol, caiff y Brifysgol gytuno bod y Brifysgol yn codi cyfran ecwiti mewn cwmni er mwyn ymelwa ar yr Eiddo Deallusol fel y nodir yn y Polisi Deillio (sy'n cael ei ddatblygu ar ôl i'r Polisi hwn gael ei roi ar waith). Rhaid i gytundeb o'r fath gael ei gadarnhau yn ysgrifenedig gan Gyfarwyddwr Cyllid y Brifysgol.
- 5.11 Gall taliadau a wneir o dan delerau'r Polisi hwn fod yn agored i ddiidyniadau statudol megis trethi ac yswiriant gwladol. Pennir y trefniadau perthnasol yn unol â'r gofynion ym mhob achos, gan sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion cyfreithiol.

## **6. Datrys Anghydfodau**

- 6.1 Dylid cyfeirio unrhyw faterion, anghydfodau, hawliadau neu unrhyw eglurhad y mae ei angen o ran unrhyw ddarpariaeth yn y Polisi hwn at Gyfarwyddwr yr YBA yn y Brifysgol yn y lle cyntaf, a fydd yn cysylltu â'r Pennaeth Adran perthnasol neu'r sawl a enwebir gan y Pennaeth wrth ystyried y mater.
- 6.2 Os na chytunir ar benderfyniad rhwng y naill a'r llall o fewn cyfnod amser rhesymol gellir cyfeirio'r anghydfod at y Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi a fydd yn gwneud penderfyniad.

- 6.3 Os bydd y partïon yn ceisio cyngor allanol mewn anghydfod o'r fath, y parti sy'n ceisio'r cyngor hwnnw fydd yn talu amdano. Bydd y penderfyniad yn derfynol ac yn rhwymo'r holl bartïon sy'n rhan o'r mater.

## 7. Cydymffurfio

Gall unrhyw dramgwydd yn erbyn y polisi hwn gael ei drin fel mater difrifol gan y Brifysgol a allai arwain at gamau disgyblu yn unol â Gweithdrefnau Disgyblu perthnasol y Brifysgol.

## 8. Gweithredu

Bydd y Polisi hwn yn gymwys i'r holl Eiddo Deallusol a ddatgelir i'r Brifysgol a ddyfeisiwyd, a wnaethpwyd neu a grëwyd ar neu ar ôl 13 Chwefror 2013.

## 9. Hanes Diwygio

Rheolir y polisi hwn gan yr YBA a'i gymeradwyo gan y **Weithrediaeth**. Bydd yn agored i'w ddiwygio'n achlysurol drwy ymgynghori â chyrrff priodol y Brifysgol.

Dyddiad Adolygu	Newidiadau	Adolygwyd gan y Weithrediaeth	Cymeradwywyd gan
Tachwedd 2022	Egluro a diweddarau'r polisi fersiwn 1.1. Ni wnaed unrhyw newidiadau i egwyddorion na chwmpas y polisi.	15 Tachwedd 2022	Y Weithrediaeth ar 15 Tachwedd 2022 yn amodol ar argymhellion gan y Weithrediaeth

## DIWEDD